

Annwyl ffrindia,

Bu'r misoedd diwethaf yn gythryblus iawn o ran newyddion. Lladdwyd pump o bobl yn Llundain o ganlyniad i weithred derfysgol, a bu digwyddiadau tebyg yn ninas Stockholm a Paris. Clywyd am gant a mwy o filwyr yn cael eu lladd ger dinas Mazar-e-Sharif yn Affganistan ac mae'r tensiynnau rhwng Gogledd Korea a'r Unol Daliaethau a Tseina yn frawychus. Ar ben hyn gwelwyd lluniau erchyll o blant bach a'u teuluoedd yn newynu yn yr Affrig. Yr hyn a glywir yn aml ydi, 'Be ddaw ohonom ni?' neu 'Be fydd y dyfodol i'n plant?' Does na fawr yn y newyddion i godi calon, ac mae hi mor hawdd digalonni a meithrin agwedd synicaidd tuag at y byd.

Byddaf o bryd i'w gilydd yn trio ymlacio trwy wrando ar gerddoriaeth glasurol, ac ymhlith fy hoff artistiaid mae côr enwog 'The Sixteen' s'yn canu dan arweiniad medrus Harry Christophers. Dewis cau allan y byd a'i broblemau am enyd a gadael i leisiau peraidd deunaw o gantorion dawnus fy nhywys i rhyw fyd llesmeiriol, arallfydol bron. Bod ar gopa'r mynydd megis, a dyheu am gael aros yno.

A dyna wnaeth Pedr hefyd wedi iddo fod yng nghwmni Iesu a Moses ac Eleias ar fynydd y Gweddnewidiad. Cymaint oedd ei awydd i aros yno nes iddo awgrymu codi tair pabell, un bob un i Iesu a'r ymwelwyr annisgwyl. Ond chafodd

o mo'i ddymuniad, a bu'n rhaid iddo ddychwelyd i odre'r mynydd i wynebu'r problemau oedd yn ei ddisgwyl yno.

A dyna'n hanes ni i gyd. Ond er gwaetha'r holl broblemau a wynebwn o ddydd i ddydd, fel Cristnogion fe greidwn ein bod yn y byd i wneud gwahaniaeth. 'Gweddïwch fel hyn' meddai Iesu wrth ei ddisgyblion: "Deled dy Deyrnas, gwneler dy ewyllys; ar y ddaear fel yn y nef"

A phob tro y byddwn yn gweddïo'r geiriau yma, byddwn yn gofyn i Dduw ein cynorthwyo i hyrwyddo'r dydd pryd y gwelir daioni a thrugaredd, cyfiawnder a heddwch yn teyrnasu ar y ddaear. Fel hyn y proffwydodd Eiseia am y diwrnod hwnnw:

"Bydd y fuwch yn pori gyda'r arth, a'r llydnod yn cydorwedd; bydd y llew yn bwyta gwair fel ych. Bydd plentyn sugno yn chwarae wrth dwll yr asb, a baban yn estyn ei law dros ffau'r wiber." (Eiseia 11: 7-8)

Rydym ar drothwy Wythnos Cymorth Cristnogol, a'n braint fel aelodau o eglwys Iesu Grist yw ymroi i'r gwaith, gan wybod y bydd yr arian a gasglwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl sy'n dioddef o ganlyniad anghyfiawnderau a thlodi mawr. Dyma ddyfyniad byr o wefan Cymorth Cristnogol:

'Cred Cymorth Cristnogol fod tlodi'n warth yn erbyn dynoliaeth.

Gweithiwn tuag at fyd lle bydd tlodi affwysol wedi ei ddileu, a golyga hyn godi pobl allan o newyn. Bydd bron i un biliwn o bobl yn mynd i'r gwely'n newynu heno. Ni chredwn fod yn rhaid i'r byd fod fel hyn.'

Beth amdani eleni? Y miloedd ar filoedd o ffoaduriaid sydd yn y byd fydd yn yn derbyn sylw'r Apêl eleni. Achos teilwng os bu un erioed,. Dowch i ymuno â'r tîm gweithgar yn y fro fydd yn mynd o dŷ i dŷ rhwng 14-20 Mai. Oherwydd ein nôd ninnau yw hyrwyddo dyfodiad y Deyrnas yn ei chyflawnder.

Gwenda Richards

Newyddion o'r Eglwysi

Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd

Cynhaliwyd dau gyfarfod bendithiol iawn yng Ngofalaeth Bro Lleu ar ddydd Gwener, 3 Mawrth, y naill yn y prynhawn yn Horeb, a'r llall yn yr hwyr yng Nghapel y Groes. Trefnwyd paned a chacen yn dilyn yr oedfa yn Horeb. Diolchir i bawb a gefnogodd y cyfarfodydd. Cyfanswm y casgliad rhwng y ddwy oedfa oedd £125.50

Eglwys Horeb

Mae **Mrs Ann Ethal Williams**, Glanrafon Hen, a **Mrs Glenda Jones**, Berwyn, wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd ac anfonwn ein dymuniadau da at y ddwy ohonynt.

Capel y Groes

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Mrs Enid Baines**, Hendy, Ffordd Haearn Bach, sydd wedi colli ei brawd, â **Mrs Elen Pritchard**, Gorllwyn, Ffordd y Sir, sydd wedi colli ei mham, ac â **Mr John Dilwyn Williams**, Bryn Llifon, sydd wedi colli ei dad. Anfonwn ein cofion cywiraf at y tri ohonynt a'u teuluoedd.

Penblwydd arbennig.

Llongyfarchiadau calonnog i **Miss Dilys O'Brien-Owen**, Ceiri, Treddafydd, ar ddathlu ei phenblwydd yn 103 mlwydd oed yn ddiweddar. Deallwn iddi gael diwrnod wrth ei bodd yng nghwmni teulu a ffrindiau.

Llongyfarchiadau i **Ms Karen Owen**, Cynefin, 29 Heol Buddug ar gael ei hethol yn Llywydd Henaduriaeth Arfon am y flwyddyn 2017. Dymunwn fendith a rhwyddineb wrth iddi ymgymryd â'i dyletswyddau newydd.

Gwaeledd: Da yw deall fod **Mrs Glenda Owen**, Annedle, Heol Buddug, wedi cyrraedd adra yn dilyn cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd ac yn Ysbyty Alltwn. Anfonwn ein dymuniadau cywiraf ati.

Paned a Sgwrs: Mae drysau Capel y Groes yn agored bob bore dydd Gwener olaf yn y mis ac yn gwahodd pobol i mewn am baned a sgwrs. Er nad oes tâl mynediad gwahoddir cyfraniad tuag at elusen

arbennig. Yn ystod 2016 ‘Ward Plant Ysbyty Gwynedd’ oedd yr elusen dewisiedig a chasglwyd £400 tuag at yr achos teilwng hwn. Mae croeso i unrhyw un daro mewn, a’r elusen a gefnogir eleni ydi ‘Cŵn Tywys i’r Deillion’.

Eglwys Bwlan

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Mrs Myfi Evans**, Ty’n Rhos, sydd wedi colli ei chwaer yn ddiweddar.

Rydym yn falch o ddeall fod **Mr Dafydd Norman Jones**, Hermione, wedi dychwelyd adra yn dilyn cyfnod hir yn Ysbyty Gwynedd ac yn yr Eryri.

Eglwys y Bryn

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â **Mr Emrys Pritchard**, Gwenfro, yn ei brofedigaeth o golli ei frawd yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion ato ef a’r teulu.

Llongyfarchiadau a diolch i Eglwys y Bryn ar godi £305 o bunnoedd mewn casgliad arbennig tuag at y newyn yn Yr Affrig.

Eglwys Brynaerau

Cydymdeimlwn â **Mrs Glenys Roberts**, Glennydd, wedi iddi golli ei brawd yn ddiweddar.

Bedydd: Mewn oedfa arbennig yn y capel brynhawn Sul 23 Ebrill, bedyddiwyd **Connor Richard Williams**, mab bach Marcus ac Angharad, Y Wenallt, Pont Llyfni. Llongyfarchwn y teulu a dymuno bendith ar eu haelwyd.

Gwaeledd: Anfonwn ein dymuniadau da at **Mrs Katie James**, Nant, sydd wedi treulio cyfnod yng Nghartref Plas Gwilym ac yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Eglwys Carmel

Anfonwn ein cofion a’n cydymdeimlad at **Mr Robert Alun Williams**, Glyn Eifion, sydd wedi colli ei frawd.

Paned Canol Haf

yn Eglwys Horeb

Nos Fercher 21 Mehefin 6.30 – 8.00

tuag at waith Nyrsus Macmillan

Paned a bisgedi, bwrdd gwerthu, tombola a sgwrs

Pris tocyn £1 / Plant am ddim